RHIFYN
ISSUE
07
07.05.19

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

07.05.19 - Cyfnod y Profion Cenedlaethol
National Tests Period
24.05.19 - Diwrnod Olaf yr Hanner Tymor
Finish for Half Term
27.05.19 - Wythnos Eisteddfod Yr Urdd
Week of the Urdd Eisteddfod
03.06.19 - Plant yn dychwelyd i'r ysgol
Children return to school
19.07.19 - Diwrnod ola'r flwyddyn
Last day of year

YMWELIAD CLWB ALAWON LLANTRISANT
CLWB ALAWON LLANTRISANT'S VISIT



Ar 05.04.19, daeth cerddorion atom i'n diddanu mewn gwasanaeth arbennig. Daeth aelodau Clwb Alawon Llantrisant atom i ganu nifer o alawon, traddodiadol Cymreig. Braf oedd clywed y gerddoriaeth hyfryd a gweld y plant yn mwynhau cymaint. Diolch yn fawr iawn i Glwb Alawon Llantrisant ac edrychwn ymlaen at eu croesawu nôl yn y dyfodol.
On 05.04.19, a group of musicians visited school to entertain us in a special assembly. Members of Clwb Alwon Llantrisant came along to school to play a number of traditional, Welsh tunes. It was great to hear these pieces and to see all the children enjoying the music. Many thanks to the group and we look forward to inviting them back to school in the future.

GORYMDAITH HETIAU'R PASG
EASTER HAT PARADE



Da iawn i'r enillwyr - Llawer o waith caled yma! Diolch am gefnogi'r Cyfnod Sylfaen!
Well done to the winners - Lots of hard work here! Thanks for supporting the Foundation Phase!

MABOLGAMPAU A CHYNGHERDDAU HAF
SPORTS DAYS AND SUMMER CONCERTS

Gweler, isod, dyddiadau ar gyfer ein Mabolgampau a chyngherddau blynyddol. Gyda lwc, byddwn yn cynnal y Mabolgampau yn ystod wythnos opsiwn 1! Petai hi'n bwrw glaw, awn ni am opsiwn 2. Cynhelir cyngherddau'r ysgol yn Neuadd yr Ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn y dyddiadur diweddaraf ac ar galendr y wefan hefyd.
Please see below dates for our annual Sports Days and Summer concerts. With luck, we shall be holding the Sports Days during the week of option 1! Should the weather be against us, we'll go for option 2. All concerts will be held in the school Hall. This information is in the most recent diary newsletter and the website calendar .

Mabolgampau / *Sports Days* (9:30yb - cae'r ysgol / *9:30am - school field*)		
	Opsiwn 1 *Option 1*	**Opsiwn 2** *Option 2*
Meithrin a Derbyn *Nursery Reception*	04.06.19	12.06.19
Blwyddyn 1 a 2 *Year 1 and 2*	05.06.19	11.06.19
Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 *Year 3, 4, 5 and 6*	06.06.19	13.06.19

Cyngherddau / *Concerts* (Neuadd yr Ysgol / *School Hall*)		
Meithrin *Nursery*	27.06.19	2:00 yp/pm
Derbyn *Reception*	28.06.19	2:00 yp/pm
Blwyddyn 1 a 2 *Year 1 and 2*	03.07.19 04.07.19	2:00 yp/pm
Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 *Year 3, 4, 5 and 6*	16.07.19 17.07.19 18.07.19**	1:30 yp/pm

** **Perfformiad i rieni Blwyddyn 6** / *Performance for Year 6 parents*

Y DAITH I STADIWM Y PRINCIPALITY
THE JOURNEY TO THE PRINCIPALITY STADIUM



Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn a deithiodd i @principalitysta ar 30.04.19 i chwarae yn rownd derfynol #RoadToPrincipality. Chwaraeodd y bechgyn yn erbyn Christ the King Primary School, Llanisien ac enillon nhw'r gêm 30-25. Pencampwyr Ysgolion Cymru!
Many congratulations to the boys who travelled to @principalitysta on 30.04.19 to play in the final round of #RoadToPrincipality. They played against Christ the King Primary School, Llanishen and won the game 30-25. Welsh Schools Champions!



WRU GRANDSLAM CHAMPIONS 2019

STADIWM Principality STADIUM

EGLWYS BETHEL
BETHEL CHURCH

Ar ddydd Llun, Ebrill 8fed, aeth plant Blwyddyn 6 i Eglwys Bethel, Pontyclun, i gymryd rhan mewn gweithdy yn trafod gwir ystyr y Pasg. Cafodd y plant amser da iawn yn yr eglwys a hoffem ddiolch i aelodau'r eglwys am estyn y gwahoddiad i fynychu unwaith eto eleni.

On Monday, April 8th, Year 6 pupils went along to Bethel Church, Pontyclun, to take part in a workshop discussing the true meaning of Easter. The children had a great time and we are grateful to the members of the church for the invitation to attend once again this year.



YMWYBYDDIAETH AWTISTIAETH
AUTISM AWARENESS



Diolch yn fawr iawn i Mrs Adams, rhiant yn yr ysgol, a ddaeth i'r ysgol ar 05.04.19 i gynnal gwasanaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth awtistiaeth gyda'r plant. Cefnogodd y plant trwy wisgo dillad glas y diwrnod hwnnw.

Many thanks to Mrs Adams, a parent in school, who visited us on 05.04.19 to hold a special assembly to raise awareness of autism. The children showed their support by wearing blue for the day.



Cofiwch ymweld â / *Visit us*: www.ygggllantrisant.cymru

RHAGLEN FFIT CYMRU YN AIL-YMWELD Â NI!
TV PROGRAMME FFIT CYMRU REVISITS US!

Braf oedd croesawu criw @FfitCymru i'r ysgol unwaith eto gyda ffrind newydd y tro'ma! Daeth @BecaLynePirkis atom i goginio bwydydd blasus, iachus gyda disgyblion Blwyddyn 2. Bydd y plant yn ymddangos ar @S4C ar 07.05.19 am 8:00 yh. Cofiwch wylio!

It was great to welcome back to school the crew of @FfitCymru with a new friend this time! @BecaLynePirkis came along to school to cook tasty, healthy food with Year 2 pupils. The pupils will appear on @S4C on 07.05.19 at 8:00 pm. Remember to tune in!







PÊL-DROED
FOOTBALL

Ddydd Iau, Ebrill 11eg, teithiodd tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol i Goleg Penybont, Pencoed i gymryd rhan mewn twrnamaint a drefnwyd gan @Urddmg. Newyddion da sydd gennym unwaith eto, daeth y bechgyn yn gyntaf! Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran a diolch yn fawr i Mr Jones - cyfnod prysur iawn iddo!

Thursday, April 11th, the boys' football team travelled to Bridgend College, Pencoed to play in a tournament organised by @Urddmg. We've good news once again, the boys came first! Congratulations to all who took part and thanks to Mr Jones - a busy few months for him!



Y GRhA
THE PTA

Mae'r plant a'r staff yn ddiolchgar iawn i @YGGG_Llant_PTA am ariannu set newydd o liniaduron. Maent yn gwneud gwaith TGCh y plant llawer yn haws! Diolch i'n holl rieni am eu cefnogaeth. Cofiwch am yr ŵyl a gynhelir yng nghlwb Rygbi Pontyclun ar 18.05.19. Archebwch docynnau o'r ysgol.

The children and staff would like to thank @YGGG_Llant_PTA for funding a new set of laptops. They make the children's ICT work much easier! Thanks to all our parents for their support. Remember the festival which will be held at Pontyclun Rugby Club on 18.05.19. Order tickets from school.



DIWRNODAU HMS
INSET DAYS

Cofiwch fod 2 ddiwrnod HMS ar ôl i'w cymryd y tymor hwn:

Remember there are 2 final INSET days to be taken this term:

17.06.19

22.07.19





Dilynwch ni ar / *Follow us on*: @YGGGLlantrisant